OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2014 Rhif 2659 (Cy. 264)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanwrda i Lanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014

*Gwnaed* *29 Medi 2014*

*Yn dod i rym* *6 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodol o'r gefnffordd a chyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Hydref 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanwrda i Lanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 6 Hydref 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 29 Medi 2014

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r A482 yn Llanwrda hyd at ei chyffordd â'r C2158 yn Llanymddyfri.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.03 o gilometrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2158 yn Llanymddyfri hyd at bwynt 2.57 o gilometrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno.